# JONES, ARTHUR (fl. 18fed ganrif); bardd o Langadwaladr yn sir Ddinbych, a chlochydd Rhiwabon (lle y bu farw)

**Enw:** Arthur Jones
**Plentyn:** Peter Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd o Langadwaladr yn sir Ddinbych, a chlochydd Rhiwabon (lle y bu farw)
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Eisteddfod; Barddoniaeth; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
**Awdur:** Ray Looker

Yr oedd yn un o gefnogwyr mân eisteddfodau Powys yn ei gyfnod. Enillodd ail wobr ar brif destun eisteddfod Llansantffraid Glyn Ceiriog yn 1743; dywedir i'w fab, Peter Jones, gymryd rhan yn yr un eisteddfod pan nad oedd ond 13 oed. Erys nifer o'i gerddi mewn llawysgrifau, a cheir rhai ohonynt ymhlith casgliadau a gyhoeddwyd yn y 18fed ganrif. Ceir un enghraifft, o leiaf, o'i ganu caeth, sef dau englyn i'r meddyg Richard Lloyd o Lanfyllin (N.L.W. MS. 6729).

## Awdur

**Ray Looker**

## Ffynonellau


*Llawysgrifau Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 216, 222, 225, 229

*NLW MSS* 436, 559, 645, 843, 1790, 4697, 4971, 6146, 6729

J. H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads printed in the 18th century* (1908-11)

*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732632


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu